Ysgol Hafan Y Môr

# Papur Prysur Blwyddyn 1



Dyma Blwyddyn 1 yn brysur iawn yn archwilio ac yn blasu amrywiaeth o ffrwythau gwahanol . Mae hyn i gyd yn rhan o'n gwaith thema ar y llyfr Y Lindysyn Llwglyd Iawn sy'n rhoi cyfle gwych i'r plant ddysgu trwy brofiadau synhwyraidd a chwarae creadigol. Wrth flasu'r ffrwythau, bu'r plant yn defnyddio eu pum synnwyr i ddisgrifio'r hyn roedden nhw'n ei weld, ei arogli a'i flasu.

Roedd yn hyfryd gweld disgyblion Blwyddyn 1 wrth ei foddau yn gwneud gweithgaredd creadigol. Wrth weithio ar thema Y Lindysyn Llwglyd Iawn, fe gafodd y plant gyfle i greu lindysyn crefft ei hunain. Bu'r dysgwyr yn gweithio'n frwdfrydig, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau lliwgar i greu patrwm unigryw ar bob segment o'r lindysyn.





Bu Blwyddyn 1 yn gweithio'n galed yn archwilio'r cysyniadau mathemategol o hanner a chwarter. Fe gafodd y dysgwyr gyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarferol, gan dorri a rhannu eitem er mwyn gweld yn glir sut mae ffracsiynau'n gweithio mewn bywyd go iawn. Roedd y plant wrth eu boddau'n defnyddio darn o dost i greu hanner a chwarter yn gorfforol, gan eu helpu i ddeall y cysyniad yn llawer mwy pendant.

# Year 1

# Papur Prysur




Here is Year 1, very busy exploring and tasting a variety of different fruits. All of this is part of our topic work on the book The Very Hungry Caterpillar, which gives the children a wonderful opportunity to learn through sensory experiences and creative play. While tasting the fruits, the children used their five senses to describe what they saw, smelled, and tasted.

It was lovely to see the Year 1 pupils thoroughly enjoying a creative activity. While working on the theme The Very Hungry Caterpillar, the children had the opportunity to make their own craft caterpillar. The learners worked enthusiastically, using a variety of colourful materials to create a unique pattern on each segment of the caterpillar.







Year 1 have been working hard exploring the mathematical concepts of halves and quarters. The learners had the opportunity to take part in a practical activity, cutting and sharing an item in order to clearly see how fractions work in real life. The children thoroughly enjoyed using a piece of toast to physically create a half and a quarter, which helped them understand the concept much more clearly.